# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-23-08)**

## SLC205

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Diwygio) (Cymru) 2008

- yn diwygio Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007") i greu trefniadau trosiannol mewn perthynas â gorfodi - gofynion labelu ar gyfer fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol, gofynion o ran siâp, ymddangosiad a phecynnu fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol ac yn gwneud diwygiadau ôl-ddilynol, perthynol. Mae'r diwygiadau hyn yn angenrheidiol i roi ei effaith i ddyfarniad yr Uchel Lys a draddodwyd ar 20 Chwefror 2008 yn rhoi datganiad nad oedd Rheoliadau 2007 yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb y Comisiwn 2006/141/EC i'r graddau bod Rheoliadau 2007 yn gwahardd masnach o 11 Ionawr 2008 yn hytrach nag o 31 Rhagfyr 2009, mewn fformiwla fabanod a fformiwla ddilynol sydd â'u labelu yn bodloni gofynion labelu Rheoliadau Fformiwla Fabanod a Fformiwla Ddilynol 1995 ond nad ydynt yn bodloni gofynion Rheoliadau 2007.

### Gweithdrefn: Negyddol

Bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 15.2 (vi) (methiant i gydymffurfio â gofynion statudol).

Mae adran 80(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu bod rhwymedigaeth gymunedol y DU hefyd yn rhwymedigaeth Gweinidogion Cymru i'r graddau y gallant hwy gydymffurfio ag o wrth iddynt arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau. Un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru yw gwneud is-ddeddfwriaeth.

Mae Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 yn ei gwneud yn ofynnol i gael ymgynghori agored a thryloyw â'r cyhoedd yn ystod cyfnod paratoi a gwerthuso'r Rheoliadau. Rhoddwyd gwybod i'r Cynghorwyr Cyfreithiol na chynhaliwyd unrhyw ymgynghori ffurfiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn (er y cynhaliwyd cyfnod ymgynghori llawn o 12 wythnos mewn perthynas â Rheoliadau 2007) gan nad ydynt yn gosod unrhyw ofynion cyfreithiol newydd. Deallir y bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn rhoi gwybod i bawb sydd â diddordeb pan gaiff y Rheoliadau eu gwneud. Gan y bwriedir i'r Rheoliadau roi effaith i ddyfarniad yr Uchel Lys ystyrir y dylid cael ymgynghoriad yn unol ag Erthygl 9 o Reoliadau (EC) Rhif 178/2002.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**Hydref 2008**

### Mae'r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth wedi nodi'r pwynt adrodd. Fe wnaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd gysylltu â rhanddeiliaid ac fe'u gwahoddwyd i wneud sylwadau ar y Rheoliadau drafft gan roi iddynt bedair wythnos i wneud hynny. Ni wnaed ymgynghoriad llawn 12 wythnos oherwydd bod y Llywodraeth yn rhwym o wneud y Rheoliadau yn unol â 'r gorchymyn llys. Petai wedi cael ymatebion i ymgynghoriad, ni fyddai'r Llywodraeth wedi bod â disgresiwn i ddiwygio'r Rheoliadau i gymryd ystyriaeth o'r ymatebion hynny.